# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 15FED MEDI, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 7 Medi 2016)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Peredur Jenkins | W. Tudor Owen | Simon Glyn |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Trevor Edwards | John Pughe Roberts |

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Hywel Eifion Jones | Cyngor Môn |
| Margaret Lyon | Cyngor Bwrdeistref Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 6 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9.6.2016 fel rhai cywir .

## 5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 9 - 13

Ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

## 6. FFIOEDD FIDELITY 14

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

# PWYLLGOR PENSIYNAU, 09.06.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd) a Peredur Jenkins

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau ).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn gadeirydd am y flwyddyn 2016 – 2017**

Diolchodd y Cynghorydd Stephen Churchman i'r Cynghorydd Tudor Owen am ei waith a'i gefnogaeth fel cyn-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn is-gadeirydd am y flwyddyn 2016 – 2017**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Seimon Glyn, John P. Roberts a Glyn Thomas

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17fed o Fawrth 2016 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD ECWITI PREIFAT

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau gadarnhau buddsoddiad uniongyrchol gyda'r Partners Group Direct Equity 2016 Fund yn unol â barn y Panel Buddsoddi a gynhaliwyd 19.5.16.

Yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth gyda Hymans Robertson yn y Panel Buddsoddi ynglŷn ar opsiynau posib ar gyfer ymrwymiad pellach i ecwiti preifat i gyrraedd y meincnod strategol o 5%, barn y panel oedd buddsoddi £25 miliwn mewn cronfa uniongyrchol ecwiti gyda Partners Group.

Adroddwyd bod y mater eisoes wedi ei drafod gan y Panel Buddsoddi, ond bod angen penderfyniad ffurfiol y Pwyllgor Pensiynau.

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ffioedd sydd yn cael eu talu am y buddsoddiad, adroddwyd bod y ffi yn seiliedig ar swm y buddsoddiad. Ategwyd y byddai'r ffi wedi ei drafod wrth i'r cytundeb gael ei gytuno, ond derbyniwyd yr awgrym i rannu gwybodaeth perthnasol. Awgrymwyd gwneud cais i Hymans Robertson ddarparu'r wybodaeth am y ffioedd ac i'r Rheolwr Buddsoddi rannu hynny yn uniongyrchol gyda'r Cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Pensiynau yn cadarnhau buddsoddiad uniongyrchol gyda Partners Group Direct Equity 2016 Fund yn unol â barn y Panel Buddsoddi**

## 8. PWLIO BUDDSODDIADAU AR GYFER CRONFEYDD PENSIWN CPLlL LLOEGR A CHYMRU

a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn rhoi diweddariad ar y prosiect pwlio buddsoddiadau ar gyfer cronfeydd pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru.

Atgoffwyd yr Aelodau bod cynnig am Pŵl Cymru wedi ei gyflwyno i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLlL) (*Department for Communities and Local Government (DCLG)* yn Chwefror 2016. Nodwyd bod y cynnig hwnnw yn ymateb i'r meini prawf ag eithrio maint, gan fod y DCLG wedi nodi y byddent yn rhagweld pwls gydag isafswm o £25bn o asedau (cyfanswm asedau cronfeydd Cymru oedd tua £12-13bn ym mis Mawrth 2015). Ychwanegwyd bod y cynnig hefyd yn pwysleisio'r gwaith sylweddol a wnaed hyd yma ynghyd a chreu sefyllfa unigryw o gydweithio ledled Cymru.

Adroddwyd bod ymateb DCLG i'r cynnig yn rhoi cefnogaeth gref i'r defnydd arfaethedig o gerbyd rheoleiddio ffurfiol ac yn cydnabod nodweddion unigryw Pŵl Cymru. Anogwyd y cronfeydd i weithio ymhellach ar fanylion y cynnig a chyflwyno cynnig manylach ym mis Gorffennaf.

Nodwyd bod y Cynghorydd Stephen Churchman a'r Pennaeth Cyllid wedi mynychu cyfarfod o Gadeiryddion Pŵl Cymru yng Nghaerdydd ar 13 Mai. Rhoddwyd diweddariad cryno ar rai o'r materion a drafodwyd.

- Cadarnhau'r bwriad i symud ymlaen i ddefnyddio gweithredwr trydydd parti ar gyfer cyd-fuddsoddi
- Cadarnhawyd y byddai cronfeydd unigol yn parhau gyda rheolaeth dros eu strategaethau buddsoddi eu hunain (dyrannu i gategorïau o asedau)
- Trafodaethau trosglwyddo buddsoddiadau angen eu cynnal i ystyried trefniadau a gweithredu
- Bod angen ymgysylltu ynglŷn â rôl Byrddau Pensiwn, ac os bydd angen Bwrdd Pensiwn i Gymru
- Bydd Cyd-bwyllgor (yn cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau Pensiwn a Phrif Swyddogion Cyllid) yn cael ei sefydlu i fonitro a herio gwaith y gweithredwr
- Ni fydd cyfarwyddyd gan y Llywodraeth o ran % o'r gronfa i'w fuddsoddi mewn isadeiledd - disgwylir i'r Pŵl wneud datganiad o uchelgais (5% - 10%).
- Anodd adnabod arbedion o'r broses - ni fydd y Llywodraeth yn mynnu bod y Pŵl yn cadw at ei amcangyfrif o arbediad

Adroddwyd y byddai Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, gyda dau swyddog arall o Pŵl Cymru a chefnogaeth Hymans, yn cyflwyno i Panel y Llywodraeth yn Swyddfa Trysorlys EM yn Llundain, ar y 16eg o Fehefin.

Nodwyd hefyd byddai Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd a'r Pennaeth Cyllid yn mynychu cyfarfod nesaf Cadeiryddion Pŵl Cymru yng Nghaerdydd ar 27 Mehefin i gytuno'r ffordd ymlaen, ac yn mynychu cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar 29 Mehefin i adrodd ar gynnydd perthnasol.

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth fydd costau 'tynnu allan' o fuddsoddiadau cyfredol y Gronfa, adroddwyd y byddai hyn yn ddibynnol ar y gweithredwr, y rheolwyr buddsoddi, a'u portffolio buddsoddiadau.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phwy fydd yn dewis rheolwyr y Pŵl, (fund managers), adroddwyd mai'r gweithredwr fydd yn dethol a dewis y rheolwyr, gyda'r cyd-bwyllgor yn dylanwadu wrth fonitro a herio gwaith y gweithredwr.

ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth fydd y canran tebygol o arian y dylid ei fuddsoddi mewn isadeiledd, ac i sylw y dylid ystyried manteision a chyfleoedd lleol, nodwyd bod disgwyliad i'r Gronfa nodi canran bwriadol i'r isadeiledd yn y cyflwyniad i'r DCLG ym mis Gorffennaf. Yn rhesymegol, bydd canran tymor-canol o 5% yn cael ei ystyried, gyda chynnydd graddol hir-dymor tuag at 10%. O ran ystyried cyfleodd buddsoddi lleol, bydd rhaid ceisio'r gorau i'r gronfa er mwyn uchafu'r disgwyliadau.

Yng nghyd-destun buddsoddi mewn isadeiledd lleol, amlygwyd bod angen sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael eu siâr o fuddsoddiadau, ac awgrymwyd rhoi cyfarwyddyd bod pob cyfle sydd yn codi yn y gogledd yn cael ei archwilio - hyn yn fater o egwyddor.

d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r arbedion posib o uno cronfeydd Cymru, amlygodd y Pennaeth Cyllid bod angen cynnwys amcangyfrif o'r arbedion posib o gostau trosglwyddo yn y cyflwyniad ym mis Gorffennaf, ond bod hyn at bwrpas engreifftiol.

dd) Adroddwyd y byddai rhaid i bob cronfa yng Nghymru gyfaddawdu i sicrhau un drefn gan annog cydweithio ac addasu i fod yn un.

Ategwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn un o'r goreuon yn y wlad ac nad oedd angen i berfformiad eraill effeithio ar hyn. Bydd rhaid sicrhau bod gwerth y Gronfa yn parhau yn faes blaenoriaeth.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i gytuno ar gynnwys cyflwyniad Pŵl Cymru i'r DCLG ym mis Gorffennaf 2016.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben 3:15pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **15 MEDI 2016** |
| **PWRPAS** | **MAE'N OFYNNOL DAN GÔD YMARFER CIPFA I ADRODD AR GANLYNIADAU GWIR WEITHGARWCH RHEOLAETH TRYSORLYS Y CYNGOR AR RAN Y GRONFA BENSIWN** |
| **TEITL** | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar 1 Mawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig.

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (DRhST) Cyngor Gwynedd am 2015/16, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd y DRhST gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2015. O ganlyniad, mae'n ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys 2015/16 yn erbyn y disgwyliadau.

## 2. Gweithgarwch Buddsoddi

Daeth Arweiniad diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau i rym ar 1 Ebrill 2010, ac roedd yn ailadrodd yr angen i flaenoriaethu diogelwch a hylifedd, yn hytrach nag enillion. Roedd hefyd yn argymell bod strategaethau i gynnwys asesu risg credyd, rhesymau ar gyfer benthyca cyn bod angen a'r defnydd o ymgynghorwyr trysorlys.

| **Balansau'r Gronfa Bensiwn** | Balans ar 31/03/2015 £m | Balans ar 31/03/2016 £m |
|---|---|---|
| Balansau | 13.4 | 21.1 |

Yn unol â chais Pwyllgor Pensiynau 24 Mawrth 2015, cyfunwyd arian y gronfa bensiwn gyda llif arian cyffredinol y Cyngor. Fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Pensiynau ar 17 Mawrth 2016 mae'r trefniant yn parhau yn 2016/17. Mae cyfraddau llog dal yn isel iawn ond nid oes rheswm dros newid y penderfyniad hwn.

Mae’r tabl isod yn dangos crynodeb o le fuddsoddwyd yr arian cyfunedig yma yn ystod 2015/16

| **Buddsoddiadau** | **Balans ar 01/04/15 £’000** | **Buddsoddiadau a wnaed £’000** | **Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £’000** | **Ailbrisio i Werth Teg £’000** | **Balans ar 31/03/16 £’000** | **Cyfradd cyfartaledd %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon Galw gyda Banciau gyda cyfraddau A- neu uwch – tymor byr | 18,420 | 146,604 | (150,892) | 0 | 14,132 | 0.43 |
| Buddsoddiadau gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu gyda cyfraddau A- neu uwch – tymor byr | 37,002 | 114,018 | (101,020) | 0 | 50,000 | 0.65 |
| Bondiau wedi ei warantu Cymdeithas Adeiladu – tymor hir | 1,121 | 1,082 | 0 | 70 | 2,273 | 1.59 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 0 | 247,300 | (247,300) | 0 | 0 | 0.47 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **56,543** | **509,004** | **(499,212)** | **70** | **66,405** | **0.63** |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | | 9,862 | |

Roedd diogelwch y buddsoddiad yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i’r Awdurdod. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti’r Awdurdod sydd wedi’i nodi yn ei Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2015/16.

Cafodd ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro gan yr Awdurdod drwy gyfeirio at statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartïon oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody’s.), amnewid diffyg credyd (*credit default swaps*), datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gefnogaeth llywodraeth dichonadwy, ac adroddiadau yn y wasg ariannol o ansawdd.

## Risg Credyd

Mae ansawdd credyd gwrthbartion a fesurir gan statws credyd yn cael eu crynhoi isod:

| Dyddiad | Cyfartaledd Pwysol Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Pwysol Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Pwysol Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Pwysol Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/15 | 5.24 | A+ | 3.62 | AA- | 64 |
| 30/06/15 | 4.18 | A+ | 2.95 | AA | 102 |
| 30/09/15 | 4.94 | A+ | 3.44 | AA | 104 |
| 31/12/15 | 4.62 | A+ | 3.29 | AA | 91 |
| 31/03/16 | 4.34 | AA- | 3.57 | AA- | 96 |

*Scorio:*
*-Mae cyfartaledd pwysol gwerth yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint y blaendal.*
*-Mae cyfartaledd pwysol amser yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd y blaendal.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 26*
*-Nôd = A- neu statws credyd uwch, gyda sgor o 7 neu is, i adlewyrchu'r dull Buddsoddi presennol gyda'r prif focws ar ddiogelwch.*

## Diweddariad Gwrthbartion

Mae trawsddodiad dau o gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth y DU yn gosod y baich o achub banciau UE sy'n methu, yn anghymesur ar fuddsoddwyr sefydliadol anwarantedig sy'n cynnwys awdurdodau lleol a chronfeydd pensiwn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tri asiantaeth statws credyd wedi adolygu eu graddau i adlewyrchu colli cefnogaeth y llywodraeth ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau ariannol a'r potensial ar gyfer colled oherwydd diffygdalu o ganlyniad i gyfundrefnau "bail-in" newydd mewn nifer o wledydd. Er gwaetha'r gostyngiadau yng nghymorth gan y llywodraeth, gwelodd nifer o sefydliadau uwchraddio o ganlyniad i'r gwelliant yn eu cryfder sylfaenol ac asesiad bod lefel y golled oherwydd diffygdalu'n isel.

Adolygodd Fitch statws credyd nifer o sefydliadau ym mis Mai. Gwelodd y rhan fwyaf o fanciau'r DU eu sgôr cefnogaeth yn cael ei adolygu o 1 (yn dynodi tebygolrwydd uchel iawn o gefnogaeth) i 5 (dynodi cymorth allanol na ellir dibynnu arnynt). Canlyniad hyn oedd israddio graddau tymor hir Banc Brenhinol yr Alban (RBS), Banc Deutsche, Banc Nederlandse Gemeeten a ING. Fodd bynnag cafodd JP Morgan Chase a Grŵp Bancio Lloyds, eu huwchraddio un gradd.

Gorffennodd Moody's eu hadolygiad ym mis Mehefin ac fe uwchraddio nhw raddau hir-dymor Close Brothers, Banc Standard Chartered, Banc ING, Goldman Sachs International, HSBC, RBS, Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cymdeithas Adeiladu Leeds, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, Svenska Handelsbanken a Landesbank Hessen- Thuringen.

Ym mis Mehefin adolygodd S&P fanciau'r Almaen a'r DU, gan israddio graddau tymor hir Barclays, RBS a Banc Deutsche. O ganlyniad i hyn gwnaeth yr Awdurdod y penderfyniad i atal Banc Deutsche fel gwrthbarti ar gyfer buddsoddiadau anwarantedig newydd. Adolygodd S&P y rhagolygon ar gyfer y DU gyfan i negyddol o sefydlog, gan nodi pryderon o gwmpas y refferendwm ar aelodaeth o'r UE a'i effaith ar yr economi.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2015, yn dilyn gwelliannau yn sefyllfa'r economi'n fyd-eang a'r lleihad yn y bygythiad o argyfwng yn Ardal yr Ewro, cynghorodd Arlingclose estyniad ar hyd buddsoddiadau heb eu gwarantu mewn rhai o sefydliadau'r DU ag Ewrop. Ym mis Medi bu estyniad tebyg ar gyfer rhai banciau nad ydynt yn Ewrop, gyda Banc Danish Danske yn cael ei ychwanegu fel gwrthbarti cymeradwy newydd a rhai cymdeithasau adeiladu'r DU sydd heb eu graddio hefyd yn cael eu hymestyn.

Ym mis Rhagfyr rhyddhaodd Banc Lloegr ganlyniadau eu profion straen diweddaraf ar saith banc a chymdeithasau adeiladu mwyaf y DU, oedd yn dangos mai RBS a Banc Standard Chartered oedd y perfformwyr gwannaf. Fodd bynnag, nid oedd y rheoleiddiwr eisiau'r un o'r ddau fanc gyflwyno cynlluniau cyfalaf diwygiedig, gan fod y ddau gwmni wedi gwella eu cymarebau dros y flwyddyn.

Cafodd chwarter cyntaf 2016 ei nodweddu gan ansefydlogrwydd y farchnad ariannol a'r rhagolygon gwan a'r gyfer twf economaidd byd-eang. Ym mis Mawrth 2016, yn dilyn cyhoeddi canlyniadau blwyddyn llawn 2015 nifer o'r banciau, cynghorodd Arlingclose y dylid atal Banc Deutsche a Banc Standard Chartered o'r rhestr o wrthbartion ar gyfer buddsoddiadau heb eu gwarantu. Cofnododd y ddau fanc golledion mawr ac er gwaetha'r gwelliant yn eu digonolrwydd cyfalaf, bydd hyn yn cael ei roi ar brawf yn 2016, yn enwedig os bydd ansefydlogrwydd y farchnad yn parhau. Mae Standard Chartered wedi gweld amryw o gamau graddio yn cael ei gymeryd yn ei erbyn gan yr asiantaethau graddio a chynnydd yn lefel CDS drwy gydol y flwyddyn. Bydd Arlingclose yn parhau i fonitro'r ddau fanc.

**Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau ym Manc Heritable.**
Bellach, mae'r awdurdod wedi adennill 98% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable. Mae'n debygol y bydd dosraniadau pellach a dylid adenill y swm llawn. Mae amseriad dosraniadau yn y dyfodol yn aneglur ac yn dibynnu ar setliad yr achos llys sy'n parhau.

## 3. Argymhelliad

**Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau derbyn yr adroddiad er gwybodaeth am sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa, ar y cyd ag arian y Cyngor yn 2015/16.**

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| Statws Credyd Tymor Hir | Sgôr |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |

Mae'r gwerth cyfartalog pwysol yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint y buddsoddiad. Mae'r amser cyfartalog pwysol yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd y buddsoddiad.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a fuddsoddir a throthwy isaf cyfradd credyd A- ar gyfer gwrthbartion buddsoddi.

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **15 Medi 2016** |
| TEITL: | **Ffioedd Fidelity** |
| PWRPAS**:** | **Derbyn cynnig Fidelity o raddfeydd ffioedd newydd** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mehefin 2016, diweddarwyd yr aelodau ynghylch cynlluniau cronfeydd CPLlL yng Nghymru i pŵlio buddsoddiadau.

2. Mewn cyfarfod o Banel Buddsoddi'r Gronfa yn Llundain ar 28 Gorffennaf 2016, adroddais yn gyfrinachol am arbediad sylweddol yn ffioedd BlackRock yn sgil pŵlio buddsoddiadau ecwiti goddefol y cronfeydd Cymreig.

3. Yn yr un cyfarfod, crybwyllodd Fidelity ei ffioedd newydd ar gyfer buddsoddiadau ecwiti byd eang wedi'u rheoli'n weithredol ar ran pŵl.

4. Yn dilyn hynny, cytunodd Fidelity byddai ei cwsmeriaid cyfredol, megis Cronfa Gwynedd, yn cael symud i'w graddfeydd ffioedd newydd rŵan, cyn sefydlu trefniadau'r pŵl Cymreig ar gyfer buddsoddiadau ecwiti wedi'u rheoli'n weithredol.

5. Cylchredwyd papur cyfrinachol, roedd wedi'i baratoi gan Paul Potter o Hymans Robertson, i bob aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn fuan ym Medi.

6. Roedd papur Hymans yn cymharu'r ffi cyfredol mae Cronfa Gwynedd yn dalu yn erbyn y ffioedd arfaethedig, yn nhermau % am bob £m wedi'i fuddsoddi'n flynyddol, ac yn darparu cyngor cyfrinachol ar addasrwydd ffioedd newydd Fidelity ar gyfer ein Cronfa ni.

7. Wedi ystyriaeth ddarbodus i'r risgiau perthnasol, argymhellir fod y Pwyllgor yn derbyn cynnig Fidelity o raddfeydd ffioedd newydd yn ddi-oed.